Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn,
Nos Lun 8fed Chwefror, 2016 am 7.00 o'r gloch.

Presennol: Is Gadeirydd Wendy Whitby, H.E. Thompson, Gareth Evans, Eleri Puw, Dylan Davies, Cynghorwr Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad: Gadeirydd Robert Jones, (Profedigaeth Teulu)

Datgan Diddordeb: Neb

Croeshawyd pawb gan yr Is Cadeirydd a danfon ein cofion at Cyng R Jones a'r teulu yn eu profedigaeth.

Derbyniwyd cofnodion Ionawr a'u llofnodi gan y Cadeirydd

1. Cae Chwarae: Derbyniwyd un pris am y gwaith paentio a phasiwyd yw dderbyn. Pasiwyd holi Les Hunt drwsio un twll yn y siglen fawr. Pwyso ar Barry Shellis i drwsio pren y slide. Ein DIOLCH i'r Cyng Lawton am y rhodd o matiau rwber i blant y pentref. Derbyniwyd llythyr gan Sean's Lawns yn dweud ei fod wedi gorfod cofrestru T.A.W. ac yr oedd yn holi am ôl daliad o £144.00. Pasiwyd yw dalu.
2. Mynwent : Gweler o dan Cae Chwarae parthed TAW.
3. Llwybrau: Derbyniwyd ad daliad £550.00 y llwybrau gan Cyngor Gwynedd.. Pasiwyd holi Jones & Jones am ofalu am y llwybrau eleni.
4. Adroddiad Cyng. Gwynedd: Bydd adroddiad y toriadau o flaen y Cyngor ar 3ydd o Fawrth, nid oedd newidiadau mawr ar hyn o bryd. Diolch Cyng Lawton.
5. Ciosg: Nodwyd bod Minffordd yn iawn. Angen sylw i Tynycornel.
6. Diolch: Derbyniwyd gair o ddiolch gan Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned a 2016 International Sheepdog Trials.
7. Parc Eryri: (1) Cais Telecommunications Hendre Abergynolwyn wedi ei ganiatau; (2) Llanast ar dir uwchben yr Hendre – y mater wedi ei ddanfon ymlaen i'r Adran Cydymffurfiaith Awdurdod y Parc.
8. Pasiwyd holi John Roberts i wneud yr Archwiliad Mewnol eto eleni.
9. Nodwyd fod hysbyseb sedd wag ar y bwrdd hysbys ers 1af Chwefror 2016.
10. Derbyniwyd manylion gwariant o dan Adran 137(4)(a).
11. Pasiwyd i ymaelodi ag Un Llais.
12. Taliadau:

Sean's Lawns	ad daliad TAW	£144.00	siec 856
Un Llais Cymru	ymuno	69.00	857

13. Staer Dywyll: Pwyswyd bod eisiau sylw i gwteri. Nodwyd bod dwr yn llifo o gae ochr ffordd yr Eglwys a Hendre. Yr oedd yn pasio un draen o flaen Hendy'r Heddlu gan fod gymaint o lif. Mae hyn yn hen stori ac eisiau sylw.

YMDDIRIEDOLAETH MARI JONES:

Dim wedi medru ail agor cyfrif Mari Jones, ffurflenni priodol i law.

Cyfarfod Nesaf 14ddeg Mawrth 2016 am 7 o'r gloch